

Cystadleuaeth 78: Cyfrol o ryddiaith greadigol neu ffeithiol yn gysylltiedig â Phowys Fadog neu Bowys Wenwynwyn.

Buddugol: Wddyn sef Alwyn Hughes, Llangadfan, Powys

COFIO CYFEILLION

Ymddangosodd yr ysgrifau hyn ym mhapur bro Plu'r Gweunydd. Bellach, dim ond dau o'r cymeriadau sy'n dal yn fyw, ond ceir yma bortreadau o gymeriadau arbennig sy'n adlewyrchu yr 'hen ffordd Gymreig o fyw'. Bellach diflannodd y ffordd honno o fyw am byth ond deil yr atgofion am y cyfeillion hyn yn fyw am byth ar gyfer haneswyr a chymdeithaswyr y dyfodol.

Mr a Mrs Dafydd Huw Owen

Cefais noson hynod o ddiddorol yn ddiweddar yng nghwmni Mr a Mrs Dafydd Huw Owen, Dolau Ceimion, Cwm Nant yr Eira. Teimlais awyrgylch gartrefol wrth imi fynd dros drothwy'r drws a chefais y fraint o rannu eu hatgofion niferus na fedrais eu cynnwys yn llawn yn yr erthygl hon.

Cafodd Mr a Mrs Owen fywydau difyr ac er iddynt fod yn eu cartref presennol ers dro hanner canrif, fe fu'r ddau ohonynt gryn bellter o'u milltir sgwâr.

Magwyd Mrs Owen yn Llundain ac roedd ei thad yn berchen ar fusnes gwerthu llaeth. Deuai pobl atynt gyda phiseri a llenwid hwy gyda llaeth o staen fawr. Mae gan Mrs Owen atgofion hapus o'r cyfnod ac roedd llawer o Gymry yno ar y pryd. Mynychai'r teulu Gapel Cymraeg Barret's Grove. Cofiai fynd i Gapel King's Cross ble roedd Elfed, yr emynydd enwog yn weinidog (a oedd yn berthynas agos i'r diweddar Barch Elfed Lewis). Dychwelodd Mrs Owen i Gymru yn ystod y rhyfel ac aeth i fyw i Lanerfyl.

Ganwyd Mr Owen yng Nghanaada a dychwelodd i Gymru yn dair oed oherwydd gwaeledd ei fam. Cafodd ei fedyddio'n Dafydd Huw ar ôl dau ewyrth a laddwyd yn y Rhyfel Mawr. Bu iechyd ei fam yn fregus am gyfnod a bu farw pan oedd ei mab yn wyth oed. Magwyd Mr Owen gan ei deulu yn Llanfihangel y Pennant ac aeth i Ysgol Tywyn cyn dod i weithio at ei Ewyrth, Evan Jones, Llysun, Lanerfyl.

Fe gyfarfu Mr a Mrs Owen yn Eisteddfod y Foel a phriodwyd hwy yng Nghapel Bethel, Lanerfyl. Aeth y ddau ar fis mêl at deulu Mr Owen i Lanfihangel y Pennant a thra buont yno daeth yn eira mawr. Cafwyd gryn drafferth i ddod adre'n ôl a bu'n rhaid

dibynnu ar drên o Dywyn i Fachynlleth ac yna i'r Drenowydd cyn cyrraedd Trallwm o'r diwedd!

Bu'r pâr priod yn byw yn Penparc, Llanerfyl am gyfnod tra roedd Mr Owen yn ail wagonner yn Llysun a'r diweddar Jack Williams yn ben wagonner yno. Roedd y gwaith yn galed yno a'r oriau'n hir iawn. Cofia Mr Owen gerdded gwartheg o Llysun i Gannon, Cwm Nant yr Eira gan aros noson yno. Drannoeth roedd yn rhaid cerdded y gwartheg ymlaen i Lanbrynmair a'u llwytho ar y trên er mwyn eu cludo i farchnad y Drenowydd. Prynai Evan Jones ragor o wartheg yno ac roedd yn rhaid eu cerdded hwy i Belan Deg, New Mills yr un noson! Yna drannoeth cerddwyd y gwartheg a brynwyd y dydd blaenorol yn ôl i Llysun!

Dro arall roedd ei ewythr wedi prynu tri chant o ddefaid ym Maes y Pandy, Talyllyn, a rhoddwyd un ddafad yn ychwanegol fel lwc! Fe gerddodd bugeiliaid Maes y Pandy y defaid i waelod Bwlch yr Oerddrws ac roedd Mr Jones wedi mynd â Mr Owen yno i'w cyfarfod yn ei gerbyd. Roedd yn rhaid i Mr Owen eu cerdded adref wedyn yr holl ffordd i Llysun.

Symudodd Mr a Mrs Owen i Ddolau Ceimion ar y cyntaf o Ebrill 1947 ar ddiwedd gaeaf hynod o galed. Cymerwyd y denantiaeth drosodd gan Mr Caradog Watkins, tad Mr Emlyn Watkins, gynt o Ceunant, Llanfihangel yng Ngwynfa. Roedd eira ar y topiau tan fis Mehefin a bu colledion aruthrol yn ystod y gaeaf hwnnw. Ni chafodd Mr Owen grop da iawn o ŵyn y flwyddyn honno gan fod y defaid yn wan. Defaid penfrith oedd y rhain, a dyma sydd wedi bod yn Nolau Ceimion dros y blynyddoedd. Roedd yn arferiad eu cerdded i sêl ddefaid Cann Offis – pawb yn mynd am y cyntaf yn ôl Mr Owen!

Roedd diwrnod cneifio yn ddiwrnod mawr, a deuai tua pymtheg i gynorthwyo ar y dydd. Yn ôl Mrs Owen, rhoddwyd y bwyd gorau i'r cneifwyr – cinio cig eidion gyda phwddin reis a tharten i ddilyn. Roedd rhaid gwneud yn siŵr fod digon o fferins a baco ar gael hefyd i ddiwallu anghenion y cneifwyr ond nid oedd unrhyw arian yn newid dwylo fel tâl. Roedd gan bob fferm ddyddiad arbennig i gneifio ac roedd pawb yn yr ardal yn cynorthwyo ei gilydd. Mawr fyddai'r hwyl a'r tynnu coes yn ôl y sôn!

Roedd diwrnod cneifio Caerbwla yn ddiwrnod hir iawn. Roedd mynydd Caerbwla ble mae'r goedwig anferth heddiw ym mhen uchaf Cwm Nant yr Eira. Byddai Mr Owen yn codi tua pedwar o'r gloch y bore a cherdded i fan arbennig ar y mynydd erbyn pump o'r gloch i ddechrau hel y defaid. Cerddwyd y defaid i Gaerbwla. Yna ar ddiwedd diwrnod caled roedd yn rhaid cerdded y defaid yn ôl i'r mynydd ym mlaen y cwm.

Roedd golchi defaid mewn pyllau dyfnion yn yr afon yn arferiad hefyd a'r bwriad oedd ceisio cael gwared o'r lanolin yn y sôn. Defnyddiwyd merlod i hel y defaid am flynyddoedd. Fe bwysleisiodd Mr a Mrs Owen pa mor gryf oedd yr elfen o gynorthwyo ei gilydd yn y cwm ac maent yn llawn canmoliaeth o'u cymdogion cymwynasgar o hyd. Mae Capel Biwla yn agos iawn at galon y ddau a hwn oedd man cyfarfod yr ardal gyfan. Soniodd Mrs Owen am y cyn archdderwydd Gwyndaf yn dod i bregethu yno bob haf am 54 o flynyddoedd. Roedd yn arferiad i rywun o Gwmdrwen fynd â merlen i'w gyfarfod i'r stesion yn Llanbrynmair am flynyddoedd cyn dyfodiad y ffordd.

Yn ôl y sôn, yn oes tad Mrs Owen (a fagwyd yn y Dolau), roedd pedwar o gorau lleol yn cystadlu yng Nghapel Biwla un tro. Goleuwyd y capel gan lampau olew a diffoddodd y lampau oherwydd fod y gynulleidfa mor niferus fel nad oedd digon o ocsigen i'r lampau losgi! Roedd Iorwerth C. Peate yn ymwelydd cyson â Derwenog yng Nghwmdrwen ar un cyfnod. Soniodd hefyd am y diweddar Glyn o Faldwyn (cyn weinidog Sardis, Llanwddyn) yn cerdded o'r Ffridd Fawr i'r ysgol yn Llanbrynmair.

Gwelwyd llawer o newid yn y cwm dros hanner canrif. Er fod nifer o'r hen deuluoedd yn dal i fyw yno, gwelwyd dyfodiad estroniaid hefyd. Roedd agor y ffordd drosodd i Dalerddig yn ddigwyddiad o bwys yng nghanol y chwe degau oherwydd nid oedd posib mynd â cherbyd drosodd cyn hynny.

Cofia Mr a Mrs Owen Syr Watcyn Williams Wynn yn ymweld â hwy bob haf gyda'i asiant, gan fod Dolau Ceimion yn rhan o stad Llanbrynmair. Cofiant hefyd am David, mab Syr Watcyn yn mynd i aros i Gannon at deulu'r Tudor i ddysgu Cymraeg. Bellach chwalwyd rhannu helaeth o stad y Wynnstay.

Soniodd Mr a Mrs Owen am yr holl leoedd ymhen ucha'r cwm sydd bellach yn furddunod neu wedi diflannu'n gyfangwbl. Dyma rai ohonynt – Dolau Isaf ac Uchaf; Cwmdrwen Isaf ac Uchaf; Dolygarreg Wen Isaf ac Uchaf; Y Ffridd Fawr a Prysg genwir (o Prysg Gwyn Gyll); Pentre Lludw; Graig; Goruwch a'r Lluest (cartref Caradog Puw).

Roedd tai unos yn gyffredin hefyd – roedd o leiaf dri ar dir Dolau Ceimion sef Tŷ'r Helyg, Pant y Gaseg a Castell. Erbyn heddiw o'r uchod dim ond Dolau, Cwmdrwen a Ffridd Fawr sydd â phobl yn byw ynddynt. Gosodir Dolau Ceimion fel man i ymwelwyr ymlacio yn nhawelwch y Cwm.

Roedd Nant yr Eira yn afon dda am bysgod am flynyddoedd. Mae gan Mr Owen atgofion ohono'n dal pymtheg ar hugain o frithyll un tro. Roedd yn afon dda am eog hefyd ac un tro rhedodd potsiar lleol i mewn i'r tŷ gyda'r ciperiaid ar ei sodlau! Bellach

diflannodd y gornchwiglen a'r betrisen. Collwyd cynefin unigryw gyda phlannu'r holl goedydd conwydd.

Rydym oll yn gyfarwydd a'r dywediad 'Mwynder Malddwyn' ac mae Mr a Mrs D.H. Owen, Dolau Ceimion yn sicr yn enghraifft ohono ar ei orau!

Dei Jones, Dolwar Fach

Mae cefn gwlad yn enwog am ei gymeriadau lliwgar a diddorol. Ceir cymeriadau sy'n adnabyddus iawn o fewn bro eu mebyd ac mewn ardal ehangach. Un o'r rheiny yw Dei Dolwar Fach fel y gelwir ef gan bawb. Mae'n sgwrsiwr hynod o ddifyr gyda chof anhygoel a dawn dweud ymysg y gorau a glywais erioed.

Fe'i ganwyd yn Nolwar Fach, yr ieuengaf o ddeg o blant. Cafodd ei fedyddio'n David Parker Jones, ac fel y dywed "Does dim cysylltiad â Parker Bowles, na phobl y beiros!" Mae'n debyg iddo gael yr ail enw ar ôl perthynas pell a oedd yn berson Frongoch, ger y Bala ar un adeg. Mynychodd Ysgol y Pentre Dolanog cyn dod adref i ffermio ar hyd ei oes. Soniodd amdano'i hun yn tynnu rhaff gyda thîm enwog Dolanog, ac roedd ganddo atgofion diddorol am y rhyfel. Bu'n gysylltiedig â'r Home Guard am gyfnod yn helpu allan gyda'r cymorth cyntaf. Soniodd amdanynt yn ymarfer rhag ofn y cawsai rhywun ei anafu, "Fi oedd y 'dummy' a gafodd ei gario ar y stretcher" medde Dei.

Er nad yw'n fodlon cyfaddef, mae Dei yn dipyn o ganwr hefyd. Bu'n canu mewn partïon Plygain gyda'i deulu a soniodd amdano'n mynd i Birmingham i ganu gyda Aelwyd Llanfair. Rhywle tua'r Bull Ring, cafodd Dei alwad natur ac esgusododd ei hun. Ni fedrodd ddod o hyd i'w gyfeillion a bu'n crwydro am hydoedd cyn dod o hyd iddynt. Bu'n aelod ffyddlon o Gapel Ann Griffiths ar hyd ei oes, ac fe'i cofia'n orlawn amser rhyfel. Cefais yr argraff mai dyn stoc yw Dei, ac nid dyn peiriannau. Mae'n fugail naturiol, craff a gofalus ac mae ei gariad at y ddafad fynydd Gymreig 'improved' yn fawr. Gweithiodd yn galed gyda'i frawd i wella'r ddiadell gan ddefnyddio hyrddod gorau'r brîd o ardal eang. Cafodd diadell Dolwar Fach anrhydeddau dros y blynyddoedd a daliodd Dei swyddi uchel yn y gymdeithas. Teithiodd yn eang fel beirniad i sioeau megis Sioe Frenhinol Cymru, Sioe Frenhinol Lloegr, a'r rhan fwyaf o'r sioeau siroedd heb sôn am sioeau bach. Roedd beirniadu yn Sioe Sir Feirionnydd yn dipyn o dasg yn ôl Dei oherwydd roedd safon y defaid mor uchel yno. Nid yw brolio yn rhan o natur Dei, ond mae ei lwyddiant gyda'r defaid a'r ffaith fod cymaint o alw am ei wasanaeth fel beirniad yn brawf o'r llwyddiant hwn, ac yn glod mawr iddo.

Dyn ei filltir sgwâr ydyw ac ychydig iawn o nosweithiau a dreuliodd oddi cartref erioed. Priododd Dorothy neu 'Doia' fel y gelwir hi ganddo. Merch Tŷ Mawr yw Mrs Jones, y fferm agosaf at Ddolwar Fach bron, ac mae ganddynt bedwar o blant. Treuliwyd ychydig o ddyddiau ar Fis Mêl yn Aberystwyth cyn dychwelyd i'r gwair! Ni chafodd Dei wyliau yn ei fywyd ac nid yw'n edifar ganddo am hynny.

Mae'n deithiwr gwael mewn cerbyd ac o'r oherwydd ni fu ganddo erioed gar. Mae'n well ganddo yrru Land Rover, a dim ond pedwar cerbyd fu ganddo erioed – dau 'pick up' a dwy Land Rover. Teithiodd i Sir Geredigion a Sir Benfro yn y Land Rover i feirniadu defaid. Cofia am y tractor cyntaf a gafodd – hen Fordson bach ond nid oes ganddo lawer i ddweud wrth y tractor.

Yn anffodus, ni fedr Dei gerdded o gwmpas fel y dymuna oherwydd anhwylder ar ei bengliniau. Edrycha mlaen i gael derbyn llawdriniaeth yn y dyfodol agos gobeithio. Mae'n ddarllenwr diwylliedig a soniodd lawer am Tegla Davies a fu yn Nolwar Fach droeon. Un o'i hoff feirdd yw Cynan, a gall ddyfynnu'n helaeth o'r awdl Mab y Bwthyn. Mae Dolwar Fach yn un o gartrefi enwocaf Cymru oherwydd y cysylltiad ag Ann Griffiths. Bu farw'r emynyddes ar "ddiwrnod saethu grows" (Awst 12) 1805 yn ôl Dei, ac fe ddaeth ei gyn-dadau yno chwe mis yn ddiweddarach ym Mawrth 1806. Bu teulu Dei yno am bron i ddwy ganrif felly, ffaith y mae'n ymfalchio'n fawr ynddi. Soniodd am Ann Griffiths yn cerdded oddi yno i'r Bala, gan aros yn ôl y sôn gyda'i ffrind Siwsi ym Mhantglas neu yn Grwn Oer, Llanwddyn. Roedd rhaid bod yn y Bala erbyn naw o'r gloch y bore i gael Cymun gan Thomas Charles. Golyga hyn fod rhaid cychwyn cerdded yn gynnar iawn.

Bu miloedd o bobl yn ymweld â Dolwar Fach drwy'r blynyddoedd fel y tystia'r llyfrau ymwelwyr. Cyflwynwyd y llyfr ymwelwyr cyntaf i'r teulu gan Dewi Thomas, Gorsaf Euston, Llundain ar Orfennaf 28, 1908. Daeth ymwelwyr o bob rhan o'r byd hyd yn oed yr adeg hynny, mewn oes pan oedd teithio yn anodd.

Bûm yn edrych drwy'r llyfrau ymwelwyr a gwelais enwau megis T.H. Parry Williams, Cynan, Llwyd o'r Bryn, Enoc Powell, Ifan ab Owen Edwards, Syr Ifor Williams a'r Parch Jubilee Young i enwi dim ond ychydig. Ni fu Lloyd George yna ei hun yn ôl Dei, ond bu ei frawd yno. Bu prif ysgrifennydd Eglwysi'r India yno yn ogystal.

Mae'n debyg fod Cynan yn darlithio ar hanes Ann Griffiths yng Ngogledd Cymru ac yn sgîl hyn daeth llawer o bererinion i Ddolwar Fach. Un o'r blynyddoedd prysuraf o safbwynt ymwelwyr oedd 1955. Roedd sôn am foddï'r ardal a chodi argae ar draws y

dyffryn islaw pentref Dolanog. Deffrodd rhyw ymdeimlad ymysg y Cymry ac roedd yn beth cyffredin cael tua pedwar cant o ymwelwyr ar brynhawn dydd Sadwrn yn yr haf. Fe agorodd y teulu hwn eu drysau i'r ymwelwyr dros y blynyddoedd – tybed faint ohonom ni fyddai'n fodlon estyn croeso i'r holl bobl yn ein cartrefi? - mawr yw dyled y genedl iddynt. Canwyd “Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd” ar y dôn Cwm Rhondda ugeiniau o weithiau ar y buarth yn ôl Dei.

Gan fod Dei yn “ddyn y pridd”, mae'n naturiaethwr craff hefyd. Mae'n ofid mawr iddo fod dirywiad wedi digwydd ym myd natur. Cofia heidiau o betris yn yr ardal, rhegen yr ŷd yn y caeau, pryfed golau a chornchwiglod ar Allt Dolanog – bellach nid ydynt ond atgof. Mae Dei yn bryderus am yr argyfwng ym myd amaeth a chred fod gorgynhyrchu wedi cyfrannu at hyn. Nid yw'n hoff o gwbl o'r syniad o gerddwyr yn cael mwy o ryddid i gerdded yng nghefn gwlad.

Diolchwn am bobl fel Dei Dolwar Fach i gyfoethogi cefn gwlad ond prinhau mae ei debyg yn anffodus.

Meurig Evans, Dolanog

Mae cefn gwlad yn enwog am ei gymeriadau neu ei chymeriadau. Y rhan amlaf bu'r bobl yma yn byw yn yr ardal ar hyd eu hoes ac adwaenant eu bro fel cefn eu llaw.

Un cymeriad tebyg yw Meurig Evans, Bronffynnon, Dolanog, gŵr y cefais gryn dipyn o'i gwmni ym ystod y deng mlynedd diwethaf ac mae'n berson mae gennyf feddwl uchel ohono. Bûm yn Bronffynnon ddwy waith yn ddiweddar a chafwyd oriau difyr yn ail fyw rhai o'i atgofion ac maent yn sicr yn werth eu rhannu â darllenwyr y golofn hon. Ganwyd 'Meic' fel mae pawb yn ei adnabod yn Ty'n y Wern, Dolanog ond fel Meic Ffrisland yr adwaenir ef gan bawb. Roedd dau hen gaban unnos ar dir Ty'n y Wern a gelwir hwy yn Ffrisland hefyd. Daw'r enw o'r Saesneg 'Freezeland' mae'n debyg sy'n awgrymu ei fod yn le oer. Credaf fod cael dau enw ar le yn eithaf anghyffredin.

Gwelodd Meic olau dydd am y tro cyntaf yn 1914 ac roedd yr ieuengaf o bump o blant. Cipar ar stâd y Jacksons oedd ei dad ac roedd ei fam yn alluog iawn gyda'i dwylo ac roedd galw amdani fel byd-wraig yn y cylch.

Mynychodd Ysgol Dolanog ac fel y dywed “Saesneg oedd yr iaith y tu mewn, a Chymraeg y tu allan”. Cerddai i'r ysgol fel y gweddill o blant yr ardal a bu yno nes ei fod tua pedair ar ddeg oed.

Yna yn 1927, gadawodd yr ysgol ac aeth adref i gynorthwyo ei dad fel cipar rhan amser ar y stâd. Pum swllt yr wythnos oedd y cyflog ond ni welai Meic hwnnw gan fod ei reini yn ei gael at ei gadw. Mae'r atgofion ohono'n cipera yn y 30au yn haeddu erthygl ar ei phen ei hun a bellach diflannodd y ffordd yma o fyw o gefn gwlad. Rhaid oedd casglu gymaint o wyau ffesantod gwyllt ag oedd yn bosib ac yna rhoddid tua 18 ohonynt i ddeor dan iâr fferm gyffredin. Roedd rhaid cymysgu'r bwyd yn ofalus ac ychwanegu wyau wedi'u gwasgu drwy netin mân â wyau morgrug. Un o swyddi Meic oedd saethu cwningod a'u crogi nes byddai cynthron yn disgyn ohonynt. Ychwanegid y cynthron at y bwyd hefyd fel protîn ychwanegol. Yna pan fyddai'r cywion tua 6-8 wythnos oed, cludid hwy i'r coedydd fin nos a mawr oedd y gofal amdanynt hyd nes deuai'r diwrnod saethu.

Fel y soniwyd eisoes, roedd Meic a'i dad yn giperiaid i deulu'r Jacksons a hanai o Clay Cross, swyddi Derby. Credaf fod gan Meic gryn dipyn o feddwl a pharch at y teulu yma, a bu yntau yn gipar hynod o ffyddlon iddynt am hanner canrif. Dim ond un cyfnod o salwch a gafodd erioed, a bu'n rhaid iddo fynd adref ar ddiwrnod saethu. Dywedodd y meddyg drannoeth fod 'niwmonia' arno ond serch hynny roedd yn ôl yn ei waith mewn ychydig wythnosau. Ni threuliodd noson mewn ysbyty erioed!

Roedd rhai o'r byddygions yn saethwyr arbennig o dda ac yn 'sportsmen' a ymfalchiai mewn lladd dim ond yr adar uchaf a hedfanai drostynt.

Cafwyd trafferthion gyda photsiars ac mae Meic yn cofio edrych i lawr bariliau gwn ar un adeg. Adroddodd ei hanes yn dal hen dyddynnwr tlawd yn lladd ei adar dair gwaith ond ni ddywedodd air wrth y meistr tir oherwydd gwyddai y byddai'n rhaid i'r potsiar symud o'i gartref fel canlyniad. Dyma enghraifft o garedigrwydd a thosturi at eraill mewn cyfnod caled.

Bu Meic yn un o saethwyr gorau'r ardal yn ei ddydd a deil yr un mor siŵr, fel y gwelais fis Ionawr diwethaf pan laddodd lwynog wrth fy ymyl yng Nghoed Pendugwm gan weld dim ond cip ohono yn rhedeg rhwng dwy goeden. Un o'i ddiddordebau amser hamdden oedd tynnu'r rhaff ac yn ôl Meic roedd tîm Dolanog yn enwog drwy'r ardal. Byddent yn ymarfer drwy glymu rhaff hanner ffordd i fyny onnen ifanc a thynnu tra bo'r goeden yn ceisio sythu ei hun. Roedd aelodau'r tîm yn hynod o gryf a gallai Meic godi ei bwysau ei hun ar drawst (chin-ups) dros gant o weithiau. Byddent yn codi'r einion yn yr efail. Yn ôl Meic un o'r pethau anoddaf oedd dal morthwyl chwe phwys hyd braich, ac yna'i godi. Roedd angen llawer o ymarfer i wneud hyn. Cofia ennill

cystadleuaeth fawr yn Buttington pan oedd y wobr gyntaf yn dair punt i'w rhannu rhwng y tîm.

Bu Meic yn briod â Mercy, ei ddiweddar wraig am hanner canrif. Mae ganddo gof amdano yn treulio ei fis mêl yn Ellesmere Port. Bu yn Llundain nifer o weithiau ym mhriodas rhai o deulu'r Jacksons. Adroddodd amdano a Mrs Evans a Mr a Mrs Jones y Felin yn cychwyn yn gynnar o Ddolanog un bore, dal trê'n i Lundain, mynd i'r briodas, yna i sioe Tommy Steele cyn dychwelyd yn ôl i Ddolanog yr un noson. Roeddent i ffwrdd o gartref am bedair awr ar hugain.

Yn ystod y rhyfel, bu'n aelod o'r Home Guard ac adrodd ei hanes ar ben Allt Dolanog yn gwylio tanau yn ardal Lerpwl. Dywedodd un o'r criw ei fod yn gallu aroglir mwg ond erbyn hynny, roedd bocs matsys wedi cynnau yn ei boced! Cofia am ddau fom yn disgyn yn yr ardal, y naill ger Glanllyn, Dolanog, a'r llall ar gaeau Cyniwyll, Llanerfyl. Dywed Meic y byddai wedi clemio petai'n gorfod byw ar ei gyflog fel cipar rhan amser ac roedd yn medru troi ei law at nifer o grefftau cefn gwlad. Roedd yn hoff iawn o droi gyda cheffyl a threuliai lawer o'i amser yn y gaeaf yn dal cwningod. Daliodd 45 o gyplau o wningod mewn prynhawn ar un fferm ac fe faglodd ef a'i frawd gan cwpwl o wningod mewn un noson dro arall. Yn ôl Meic, bu llawer o bobl yn ddibynnol ar gwningod mewn amser o galedi a chefais yr argraff nad oedd y cipar yn croesawu dyfodiad y Myxy!

Mae'n naturiaethwr craff a gwybodus ac roedd ei sylwadau yn y maes hwn yn hynod o ddifyr. Dim ond dau fochyn daear a welodd rhwng 1920 a 1950 a soniodd am llwynog yn lladd ŵyn yn yr ardal yn 1937 – rhywbeth hollol ddiethr yn y cyfnod hwnnw. Mae'n cofio dyfodiad y wiwer lwyd ar ôl yr Ail Ryfel Byd, a gwelodd ddirywiad yn nifer y wiwerod cochion. Soniodd am y grefft o saethu petris pan oedd raid dewis yr aderyn blaen allan o haid, a'i saethu'n lân. Dim ond unwaith erioed y gwelodd nyth gyfflog, yng Nghoed Lawnt. Er iddo saethu dwsinau o gyfflogod, ni flasodd un erioed. Holais i Meic pa anifail oedd ei ffefryn. "Llwynog" meddai, heb feddwl ddwy waith. "Ces i'r gorau arno lawer tro ond fe'm twyllodd innau lawer gwaith hefyd", meddai gyda gŵen lydan ar ei wyneb. Bu'n aelod ffyddlon o gymdeithas Rheoli Llwynogod Dolanog o'i dechreuad hyd heddiw.

Gwelodd ddirywiad yng nghymdeithas cefn gwlad ac yn ôl Meic nid yw pobl yn cael digon o 'exercise' bellach. Cofia deuluoedd yn byw mewn murddunnod sy bellach yn adfeilion. Diolch o galon iddo am rannu rhai o'i atgofion gyda mi.

Dwynwen Jones, Llangadfan

Treuliodd Dwynwen Jones ei hoes yn Nyffryn Banw ac roedd ei chariad tuag at ei bro yn angerddol.

Magwyd hi yn Llanerfyl, ar aelwyd ble'r oedd y 'pethe' yn rhan naturiol o fywyd bob dydd. Byddai ei mam, Sydney Roberts, yn hyfforddi partïon a chorau. Tŷ bach iawn oedd y cartref a byddai aelodau'r côr yn aml yn gorlifo i'r ardd wrth ymarfer.

Ar ôl priodi ymsefydlodd Dwynwen gyda'i gŵr Tom yn fferm y Parc, Llangadfan, a magodd y cwpl ddwy ferch, Lowri a Sioned. Ond cafodd y teulu ergyd anferth pan gafodd Lowri ddamwain ddifrifol, a hithau'n ddeg oed. Gofalodd Dwynwen amdani'n dyner a charedig ac yn gwbl ddirwgnach am hanner canrif wedi hyn, hyd at ei marwolaeth yn 60 oed ar ddiwrnod olaf 2019. Dangosodd yr un gofal a chariad tuag at Tom yn ei waeledd a bu ei farwolaeth yntau ychydig flynyddoedd ynghynt yn golled drom arall iddi.

Daw llawer o ansoddeiriau i'r cof wrth feddwl am Dwynwen. Cristion cywir, cyfaill ffyddlon, cymydog triw, cymwynaswraig hael, a Chymraes ddiwylliedig. Roedd teulu a chyfeillion yn golygu llawer iddi a byddai'r croeso ar yr aelwyd yn y Parc ac yna, yn ddiweddarach, yn Nhŷ Cerrig, Llangadfan, yn ddjarhebol. Roedd Dwynwen yn hynaws a hwyliog, a byddai'r sgwrs yn llifo mor rhwydd ag afon Gam o flaen y tŷ.

Roedd cerddoriaeth a cherdd dant yn hollbwysig iddi. Cafodd ei thrwytho'n ifanc yn y grefft o ganu a gosod cerdd dant ac roedd parch mawr iddi trwy Gymru fel gosodwr a hyfforddwr ac yn ddiweddarach fel beirniad cenedlaethol. Cafodd lwyddiant mawr yn paratoi partïon Ysgol Uwchradd Llanfair ac Aelwyd Dyffryn Banw at wahanol gystadlaethau. Parti Merched Ysgol Llanfair a enillodd y wobr gyntaf am ganu 'Molawd y Nyrs' yn Eisteddfod yr Urdd Rhyl ym 1974.

Yna daeth dyddiau Parti Cerdd Dant Dyffryn Banw, a ddatblygodd i fod yn gôr yn nes ymlaen. Bu'r Côr yn cystadlu llawer yn yr Ŵyl Gerdd Dant ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol, gan ennill y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth y Côr Cerdd Dant yn Eisteddfod yr Wyddgrug, 1997. Byddai'r côr yn cystadlu yn Eisteddfod Powys yn flynyddol, a Chôr Dyffryn Banw fyddai'n aml yn cloi'r Eisteddfod honno yn oriau mân y bore. Pan oedd yr Ŵyl Gerdd Dant yn Llanfyllin yn 2022 roedd Dwynwen yn Llywydd Anrhydeddus.

Roedd hi'n awdurdod ar hanes y Blygien ac roedd yr hen alawon ar ei chof. Bu'n gysylltiedig â Phlygain Llanerfyl drwy ei hoes, a byddai Pedwarawd Plygain Eglwys

Llanerfyl, sef Tom a Dwynwen, Eleri Williams a'r Parchedig Ceri Evans, yn canu mewn plygeiniau dros ardal eang. Datblygodd y Pedwarawd yn Barti Plygain sy'n dal i ganu i agor y Blygien yn Llanerfyl bob blwyddyn.

Bu Eglwys y Santes Erfyl, Llanerfyl, yn rhan annatod o'i bywyd ac roedd yn arbenigwraig ar ei hanes. Hi oedd organydd yr eglwys a byddai'n werth mynd yno'n gynnar i'w chlywed yn mynd drwy'r hen garolau a sain yr offeryn yn llenwi'r lle. Daliodd i chwarae'r organ hyd at yn ddiweddar iawn.

Cydnabuwyd cyfraniad Dwynwen i fywyd ei hardal yn Eisteddfod Dinbych 2013 pan gafodd ei derbyn i'r Orsedd. Fe'i hurddwyd, yn syml, fel 'Dwynwen' ac roedd yn ddewis nodweddiadol ohoni – roedd rhyw naturioldeb braf a diffwdan yn perthyn i'w holl weithgarwch.

Roedd Dwynwen yn dalp o 'fwynder Maldwyn' a bydd bwlch enfawr ar ei hôl yn ei milltir sgwâr. Diolch am gael ei hadnabod ac am iddi fod mor hael yn rhannu ei gwybodaeth am hanes, traddodiadau a chwedlau'r fro.

Cofio'r hwyl a chofio'r siarad,
Cofio'r baned yn ddieithriad.
Diolch wnawn o waelod calon
Am gael cwmni ffrind mor ffyddlon.

Allen Williams, Llanfair Caereinion

Un o drigolion hynaf yr ardal yw Mr Allen Williams, Bodalwen, Llanfair, neu Allen Glyndwr fel yr adwaenir ef gan bawb. Bu'n byw yn yr ardal ar hyd ei oes ac rwyf yn ddiolchgar iawn iddo am rannu ei hanes a'i atgofion difyr gyda mi.

Fe'i ganed yn Ebrandy, Llanllugan yn un o bedwar o blant ac roedd ganddo dair chwaer. Roedd ei fam yn ferch Belan Ddu, a'i dad o Hen Dai, rhwng Cefn Coch a'r Adfa.. Symudodd y teulu i fyw i Glyndwr pan oedd Allen yn ddwyflwydd a hanner ar ôl i'w dad brynu'r fferm yn dilyn marwolaeth Mr Jones, Llety Gwilym.

Aeth i'r ysgol gynradd yn Llanfair ar Ffordd y Mownt a cherddai gyda'i chwiorydd i gyfarfod dicsi (math o fws) cynnar a oedd yn berchen i deulu'r Astley's a gadwai garej yn Llanfair. Daeth y cludiant i ben pan oedd Allen yn wyth oed ac wedyn aeth i Ysgol Rhiwhiriaeth, gan gerdded gryn siwrne yno ar draws y caeau ymhob tywydd.

Nid oedd ganddo gof o wisgo welingtons, a cherddent drwy'r mwd yn eu hesgidiau gan gario eu cinio eu canlyn. Gosodwyd dillad gwlyb o flaen boelar mawr i sychu yn ystod y dydd. Un o'i athrawesau oedd y ddiweddar Miss Mary Davies, Maes Garthbeibio, Foel gynt.

Pasiodd ei 11+ ac aeth i'r Ysgol Uwchradd yn Llanfair oedd ar safle'r Ysgol Gynradd bresennol. Teithiai yn ôl a blaen i'r ysgol ar gefn merlen a'i gadael yn stable'r Wynnstay am y diwrnod. Cofiai ddod i drafferth rhywbryd am fod â phaced o sigarennau Woodbine yn ei feddiant a chafodd flas y gansen fel gwobr!

Cofiai am efaciwis yn yr ardal adeg yr ail ryfel byd ac roedd dwy ferch yn aros gyda'r teulu yng Nglyndwr am gyfnod. Roedd ei dad yn aelod o Home Guard Cefn Coch.

Ar ôl gadael yr ysgol bu Allen adre yn gweithio ar y fferm gyda'i dad. Roedd Eidalwr o'r enw Poco yn was iddynt am flynyddoedd a chanmolai Allen ef yn fawr. Dyma gyfnod y chwyldro mawr ym myd amaeth pan ddaeth y tractor i ddisodli'r ceffylau gwedd. Cofia Allen dri cheffyl ar y fferm ac roedd ganddo gof am arwain un ohonynt wrth rowlio'r tir ac wrth drin tir ar gyfer plannu tatws.

Daeth y tractor cyntaf ym 1942, sef Fordson gydag olwynion haearn efo clapie o haearn arnynt a elwid yn spade lugs, cyn i deiars rwber ddod yn ffasiynol. Adeg yr eira mawr 1946-47 arferai Allen fynd â 'churns' llaeth mewn trelar bychan i lawr i Lanfair i gyfarfod â'r lori laeth wrth y Wynnstay a hynny gyda'r tractor a'r spade lugs yn ei gwneud hi'n siwrne go anghyfforddus mae'n siwr.

Dechreuwyd godro tua deg o wartheg gyda llaw nos a bore a rhoddid y llaeth mewn 'churns' cyn i lori eu casglu a'u danfon i'r ffatri laeth yng Nghilcewydd ger Tre'r Llai.

Bu Allen yn godro'n ddi-dor am 58 o flynyddoedd ac yn y diwedd deuai tancer heibio i gasglu'r llaeth.

Gan ei bod yn amser rhyfel, roedd y 'War Ag' yn gorfodi ffermwyr i droi gymaint ag y medrent o'r tir. Os byddai'r tir yn rhy arw, byddai dynion y War Ag yn defnyddio caterpillar i wneud y gwaith eu hunain. Byddai cryn dipyn o anghydweld rhwng swyddogion y War Ag a'r ffermwyr mae'n debyg.

Roedd diwrnod dyrnu yn ddigwyddiad pwysig iawn. Deuai Pryce Davies, Bronwenallt yno gyda'i focs dyrnu a'r injan dracsiwn oedd yn gweithio'r bocs dyrnu gyda phŵer stêm. Gorchwyl Allen oedd cario dŵr mewn bwcedi o'r afon i ddisychedu'r injan fel y gellid cynhyrchu mwy o stêm. Byddai Allen yn cario'r peiswyn (sbarion ar ôl dyrnu) mewn pacloeth gwlân wedi'i agor i adeilad ble y'i defnyddid i fwydo'r gwartheg yn ystod y gaeaf. Roedd angen tua deg o ddynion ar ddiwrnod dyrnu, gan olygu llawer o waith

bwydo i wraig y fferm. Nid oedd unrhyw dâl i'r gweithwyr ond disgwyliid iddynt dalu'n ôl drwy helpu gyda dyrnu ar y ffermydd cyfagos. Byddai'n rhaid godro cyn mynd i ddyrnu, cerdded i fferm gyfagos, dyrnu drwy'r dydd, cerdded adre a godro wedyn fin nos.

Does dim amheuaeth fod y gwaith yn galed a'r oriau yn hir ond roedd cyfeillgarwch a chymwynasgarwch yn rhan naturiol o fywydau cefn gwlad bryd hynny.

Roedd moch yn cael eu magu yng Nglyndwr hefyd a gwerthid y perchyll (moch ifanc) yn y Trallwm pan oeddent tua wyth wythnos oed. Deuai'r diweddar Thomas Lewis, Llangadfan (Tomi Bronafon) yno i ladd moch ar gyfer y gaeaf ond torrai tad Allen hwy i fyny ei hun.

Roeddent yn cael bwyd i'r stoc gan gwmni Co-op (Montgomeryshire Farmers Association Ltd) o warws ger yr orsaf reilffordd yn Llanfair, cyn dyddie'r Wynnstay Farmers.

Byddai Morgan Brothers neu Peate yn cario anifeiliaid i'r farchnad yn y Trallwm mewn lorïau ac roedd yn rhaid bwcio ymlaen llaw. Roedd seli defaid yn bwysig bryd hynny a cherddid y defaid o Glyndwr i seli Llanfair a Chefncoch. Roedd yn arferiad cerdded defaid o Glyndwr i'r mynydd uwchben Cefn Coch, tua thair milltir o bellter bob ffordd. Roedd cwningod yn broblem fawr cyn i'r Myxy ddod ym 1954. Cofia Allen eu bod wedi bwyta hanner cae chwe chyfer o yd. Daliwyd hwy gyda maglau ac roedd dynion hunan gyflogedig yn dod rownd y ffermydd i'w difa gyda thrapiau, maglau a ffureta. Roedd y cwningod a'r wyau yn cael eu gwerthu i gwmni Bill Jones, sy'n dal i fynd ger bwyty'r Raven yn y Trallwm.

Roedd ieir yn bwysig ar un adeg hefyd a chedwid hwy mewn deep litter. Roedd mam Allen yn gwerthu wyau gan nad oedd llawer o arian parod yn dod i fewn. Deuai cwmni Vincent Jones, Llanfair o gwmpas gyda fan bob wythnos felly doedd dim rhaid mynd i siopa bwyd.

Gwelodd Allen newid mawr yn y dull o gynaeafu gwair. Cofia gario gwair rhydd gan ei lwytho gyda phicwarch a'i ddadlwytho i'r dalfodydd ar y buarth. Gwelodd ddyfodiad y bêls bach, y 'big bêls' silwair a'r cynaeafu silwar modern gyda pheiriannau enfawr.

Ni fu Allen yn cneifio llawer ei hun ond dibynent ar gontractwyr i wneud y gwaith. Cludid y pacloethau gwlan i'r Ffatri Wlân yn y Drenewydd. Fe weithiodd Allen a'i dad yn galed yn gwella'r fferm gan godi adeiladau a gwella ansawdd y tir. Mae'r gwaith yma yn parhau hyd heddiw dan ofal David a Helen ac mae Glyndwr yn batrwm o amaethu cefn gwlad ar ei orau. Mae hyn yn naturiol wrth fodd Allen.

Dyma gipolwg ar fagwraeth Allen ac ar y dulliau o ffermio oedd mor gyfarwydd ar bob fferm am gyfnod hir, cyn yr holl ddatblygiadau modern.

Cymar bywyd Allen oedd Alwena, merch o Lanwddyn. Gweithiodd yn galed yn y cartref ac ar y fferm a chofiwn yn annwyl amdani fel gwraig garedig, gydwybodol a chymwynasgar. Roeddent yn briod am dros drigain mlynedd a buont yn rhieni a thaid a nain cariadus a gofalus bob amser.

Roedd yn un o aelodau gwreiddiol Côr Meibion Llanfair lle bu'n canu unawdau a deuawdau gyda'i Dad. Roedd yn unawdydd o fri ac enillodd llawer gwobr mewn Eisteddfodau dros gylch eang. Roedd y teulu y teulu cerddorol yn cynnal nosweithiau o ganu safonol iawn. Bu'n Ysgrifennydd Eisteddfod Seilo am flynyddoedd, yn blygeiniwr selog ac yn aelod gwerthfawr yng nghapeli'r fro ar hyd ei oes.

Dyma ddau a roddodd oes o wasanaeth i'w bro gan gefnogi pob agwedd o ddiwylliant yn yr ardal. Mawr yw ein dyled iddynt ac heb amheuaeth dyma enghraifft wych o Fwynder Maldwyn ar ei orau.

Teulu Tŷ Isa, Rhiwhiriaeth

Pleser yw cael croesawu Eisteddfodwyr o bob rhan o Gymru i'r Eisteddfod Genedlaethol ar gaeau Mathrafal, ger Meifod. Gellid dadlau fod y safle'n un o'r hyfrytaf yng Nghymru – ardal amaethyddol ydyw gyda ffermydd teuluol yn gwarchod eu cynefin ac yn asgwrn cefn i'n ffordd o fyw yma yng Ngogledd Maldwyn.

Hoffwn gyfeirio at un teulu sy'n adlewychu y ffordd honno o fyw ar ei gorau sef Teulu Tŷ Isaf, Rhiwhiriaeth sydd ym mhlwyf Llanfair Caereinion ac yn gartref i Mr a Mrs Emlyn Evans a'i mab Arwyn (neu 'Tis', fel y'i gelwir gan bawb). Daeth teulu Mr Evans i Dŷ Isa yn 1910 ei dad yn frodor o Gwm Cownwy, Lanwddyn. Bu Emlyn Evans yn byw yma ar hyd ei oes ac roedd ganddo un brawd a fu farw y llynedd. Yn sicr, mae'n ddyn y tir, yn ffermwr gofalus ac yn naturiaethwr craff. Mae ganddo doraeth o atgofion am yr hen ddulliau o amaethu; ac roedd yn hoff iawn o weithio ceffylau gwedd ac fe gofia ddefnyddio pren grit i hogi pladur ac unwaith gwelodd geffyl yn cael ei waedu gyda fflaim. Bu ef a'i dad yn lladd moch ac mae gan y ddafad benfrith le cynnes yn ei galon. Tystia'r gwobrau yn y cwpwrdd gwydr ei allu fel magwr stoc – enillodd y bencampwriaeth i ddefaid penfrith yn y Sioe Frenhinol yn Llanellwedd. Creda Mr Evans fod gormod o borthi gyda dwysfwyd yn digwydd ar ein ffermydd heddiw, mae o'r farn y dylai creadur "fyw ar ei ddannedd" gymaint ag sy'n bosib.

Mae Emlyn Evans yn enwog am ei ddawn fel cerddor yn ogystal. Bu'n aelod o Gôr Meibion Llanfair Caereinion ers ei ffurfio yn y 1950au a bu'n arweinydd am dros ddegawd. Bu Emlyn ac Arwyn yn hynod o ffyddlon i'r Blygain yn yr ardal a hwy yw asgwrn cefn Plygain Seilo ers ei sefydlu ynghanol pumdegau'r ganrif ddiwethaf. Maent yn dal i gefnogi plygeiniau ymhell ac agos a chânt bleser mawr wrth wneud hynny. Mae Mr Evans hefyd yn aelod o Orsedd Powys ers blynyddoedd a'i enw barddol yw 'Dewi Emlyn'. Mae Capel Seilo'n fangre cysegredig iawn i'r teulu a dilynodd Mr Evans ei dad fel ysgrifennydd yno. Ef yw un o 'ffans' mwyaf Cwmni Theatr Maldwyn a rhestra eu canu ymysg ei hoff gerddoriaeth ynghyd â'r Meseia gan Handel a phwysleisia fod hen garolau'r blygain yn tanio rhywbeth arbennig yn ei gyfansoddiad. Fe welodd Mr Evans galedi ar adegau ym myd amaeth ac roedd yn eithaf anodd cael dau ben llinyn ynghyd weithiau. Arferai gadw moch ar y fferm ac roedd baedd yno hefyd a deuai pobl yr ardal â hychod i Tŷ Isaf. Yn ystod y flwyddyn olaf o fagu moch, dim ond un punt yn unig o elw a wnaethpwyd ohonynt. Gwelwyd llawer o newid yn y dulliau o amethu, aeth y ceffyl, y bladur a'r pren grift a'r beindar a daeth y byrnau mawr silwair a'r tractorau cryfion, moethus.

Bu Emlyn Evans yn ddyn gwn brwdfrydig pan oedd yn iau ac roedd arian cwningod yn gymorth mawr – ac roedd arian cwningod yn gymorth mawr – ac yn ôl Mrs Evans, dyma dalodd am y fodrwy briodas. Daeth aml i ffesant ar dir Tŷ Isaf ond tocyn un ffordd ydoedd i lawer ohonynt.

Ganed Mrs Llinos Evans ym Mhant y Waun, Llanbryn-mair, sydd bellach yn adfeilion. Symudodd y teulu i Fraich Odnant yn yr un plwyf er mwyn i'r plant gael mwy o ysgol ond yn anffoddus ni fu iechyd ei thad yn gryf a symudodd y teulu i Lundain pan oedd tua phymtheg oed. Cadwai'r teulu siop yno a gwerthent laeth hyd nes daeth yr Ail Ryfel Byd. Cofia Mrs Evans fynd i gysgodi i'r 'Underground' a dod adref drannoeth i weld ei chartref gyda chrac mawr drwyddo.

Symudodd y teulu'n ôl i Fin y Ddôl ym mhentref Llanerfyl a chafodd Mrs Evans waith yn Swyddfa'r Post yn Llanfair Caereinion. Dyma ble y cyfarfu â'i gŵr ac ar ôl priodi aethant i fyw i Tŷ Isa. Bu Mrs Evans yn ohebydd i Blu'r Gweunydd ers ei ddechreuad ym 1978, yn hollol ddibynadwy ac yn ofalus iawn wrth gasglu'r newyddion. Ni fu'r iechyd gystal yn ystod y blynyddoedd diwethaf a chafodd lawer o boen. Cafodd ddwy ysgwydd newydd ac mae'n araf ddod dros y llawdriniaeth egr. Serch hynny, deil â gwên ar ei hwyneb ac mae'r un mor groesawgar ag erioed yn ei chartref. Cefnogodd bopeth sy'n ymwneud â'r pethe yn yr ardal a bu'n gefn cadarn i'w phriod a'i mab.

Nid yw'n hawdd gwybod ble i ddechrau sôn am y mab, sef Arwyn, neu 'Tis' i'w gydnabod ymhell ac agos. Dyn pobl yw Tis ac mae ganddo'r ddawn i gyfathrebu'n effeithiol gyda phawb ac ni ellid cymysgu ei lais dwfn a'i "Ffor' mai" gyda neb arall. Hen lanc ydyw – mae'n rhyfeddod na fuasai rhyw 'lodes fêch glên' wedi ei fachu yn rhywle!

Fel ei rieni, mae Arwyn yn dalp o ddiwylliant a bu'n weithiwr di-flino gydag ieuenctid yr ardal. Ef fu un o hoelion wyth Aelwyd Penllys dros y blynyddoedd. Bu'n aelod prysur dan arweiniad y diweddar Barch Elfed Lewys. Mae gan Tis barch ac edmygedd mawr tuag at y gŵr arbennig hwn, ac mae'n ymhyfrydu yn y ffaith y bu'n gyfaill personol ac agos iddo. Cariodd genedlaethau o bobl ifanc i ymarferion yr aelwyd mewn gwahanol 'pick ups' a chafodd ei anrhydeddu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerdydd, pan dderbyniodd Dlws John a Ceridwen Hughes am ei gyfraniad amhrisiadwy gyda ieuenctid. Cafodd rodd arbennig yng nghyfarfod dathlu 50 mlynedd Aelwyd Penllys sef llun o gi defaid ac englyn enwog Thomas Richards arno.

Bu'n aelod o Gwmni Theatr Maldwyn ers y dechrau a mawr fu ei gymwynas iddynt wrth gludo offer a setiau dros Gymru gyfan. Edrychwn ymlaen at weld Arwyn yn y cynhyrchiad diweddaraf 'Ann' ar Faes y Brifwyl eleni. Ymysg ei hoff gerddoriaeth mae'n rhestru Oratorio allan o'r cynhyrchiad 'Myfi Yw' a hefyd ganeuon y blygain. Dywed Tis ei fod yn hoff o bob math o ganu digyfeiliant – hynny yw os ydy'r canu'n dda! Gwnaeth gyfraniad aruthrol i Gôr Meibion Llanfair Caereinion yn ogystal, a bu'n canu gyda hwy ers pan oedd yn ddwy ar bymtheg oed. Yn ddiweddar derbyniodd blac arbennig am ei wasanaeth diflino i'r côr dros y blynyddoedd. Llongyfarchwn ef fel ardal ac ymfalchiwn fod ei gyfraniad wedi cael ei gydnabod ar lwyfan cenedlaethol.

Canodd lawer mewn partiön Plygain gyda'i dad a pharti Aelwyd Penllys ac mae'n ymfalchïo ym mhoblogrwydd y blygain ar hyn o bryd. Cafodd ei dderbyn yn aelod o Orsedd Eisteddfod Powys pan fu'r Eisteddfod yn Llanfair a'i enw barddol yw 'Tyisaf'. Bu'n ymddangos mewn dramâu lleol hefyd dros y blynyddoedd.

Serch hynny, deil Tis i fod yn ddyn ei filltir sgwâr ac mae ei gynefin lleol yn agos at ei galon. Deil i gynorthwyo ar nifer o ffermydd yr ardal ble mae'n uchel ei barch fel cymwynaswr gan ddilyn yr hen arferiad sydd bron â diflannu o'r tir. Mae'n stocmon a ffermwr craff sy'n dilyn ôl traed ei dad.

Er bod Tis ynghlwm â nifer o weithgareddau diwylliannol, deil ei gartref a'i rieni i fod yn ganolbwynt ei fywyd. Mawr yw ei ofal ohonynt a bu'n graig iddynt yn ystod

gwaeledd ei fam. Mae'n ffermio mewn cytgord â'i Dad neu'r "Boss" fel y'i gelwir wrth ymarfer crefft gyntaf dynol ryw".

Dyma deulu sy'n nodweddiadol o'r ardal arbennig hon ac anodd fuasai cael gwell enghraifft o warchod y 'Pethe' a'r traddodiadau yn unman.

Erfyl a Megan Roberts, Llanfihangel

Fe fydd Awst yr wythfed eleni yn ddiwrnod pwysig i Erfyl a Megan Roberts, Brynllys, Llanfihangel oherwydd byddant yn dathlu eu priodas ddiamwnt, sef chwe deg mlynedd.

Rwyf wedi eu hadnabod ers dros ddeng mlynedd ar hugain, ac yn ddiweddar treuliais fore Sul hynod o ddifyr yn eu cwmni. Mae eu cartref Brynllys, sef byngalo a adeiladwyd ar dir Cefn Coed Isaf, Llanfihangel fel 'pin mewn papur'. Mae'r gerddi yn llawn blodau ac mae'r tŷ ei hun yn dyst i ddawn Erfyl fel crefftwr. Anodd fuasai cael gwell golygfa o unman.

Bu gan y ddau gysylltiad agos ag ardal y Plu am gyfnod maith. Magwyd Megan (amhosib yw cyfeirio atynt fel Mr a Mrs Roberts!) ar fferm Rhiwhiriaeth Ganol ger Llanfair Caereinion ac ar ôl gadael Ysgol Rhiwhiriaeth bu adre'n cynorthwyo gyda gorchwylion y fferm megis corddi a ffyrna (neu bobi bara). Aent fel teulu i Gapel Seilo, gan groesi'r caeau. Cofia Megan gryn bymtheg o blant yn adrodd adnoddau yn y Sêd Fawr.

Ganed Erfyl yng Ngwyddelwern, Sir Feirionnydd ac yn dilyn cyfnod o fyw yn y sir honno, daeth gyda'i deulu i fyw i Ddolerfyl, Llanerfyl. Mae ganddo atgofion difyr iawn pan oedd yn was fferm yng Nghwmderwen. Nid oedd tractor yno a bu'n canlyn ceffylau gwedd ers pan oedd yn bymtheg oed. Gweithiai yng Nghwm Nant adeg eira mawr 1947 pan fu colledion aruthrol. Cofiai geisio torri gwair y cynhaeaf canlynol ond cafwyd trafferth gyda chymaint o wlln rhydd yn tagu cyllell yr injan dorri gwair.

Defnyddiai'r teulu ganhwylau brwyn i oleuo'r tŷ oherwydd prinder paraffin. Cofia Erfyl fod brwyn arbennig yn cael eu torri ger Rhyd Ddu (sydd dan goed heddiw). Yna roedd rhaid eu piio a'u gosod mewn padell arbennig a ddaliai ired dafad. Ar ôl eu sychu

llosgid hwy wedi'u dal mewn dyfais arbennig. Yn ôl Erfyl roeddent yn fudron oherwydd diferaï'r ired i bobman. (Erfyl yw'r unig berson bellach rwyf yn ei adnabod sy'n cofio defnyddio canhwyllau brwyn i oleuo'r tŷ).

Symudodd o Gwnderwen ac aeth i weithio i Ceunant, Llanfihangel pan aeth y teulu Watkins yno o Ddolauceimion. Bu am gyfnod yn gweithio yng Nglynhiraeth, ac yno y cyfarfu â Megan.

Bu'n was yn Llysun cyn symud i ardal Clun a Threfaldwyn am rai blynyddoedd cyn iddynt brynu Cefn Coed Isaf (ble mae Emyr eu mab yn byw heddiw). Ffermiwyd y tir yn ofalus a graenus gan Erfyl a Megan cyn iddynt ymddeol a chodi'r byngalo Brynllys sy'n gartref cysurus iddynt bellach ers tua wyth mlynedd ar hugain.

Priodwyd y ddau yng Nghapel Ebeneser, Llanfair ar Awst yr 8fed 1953 gan y Parch Arthur Thomas. Cafwyd y wledd yn Rhiwhiriaeth Ganol, sef cartref Megan, a threuliwyd rhai dyddiau ar fis mêl yn Aberystwyth cyn i Erfyl orfod dychwelyd at orchwylion niferus y fferm yng Nghlun. Cawsant bedwar o blant sef Elizabeth, Pryce, Eluned ac Emyr, sy'n parhau i fyw yn lleol, ac mae ganddynt un-ar-ddeg o wyrion a wyresau.

Bu Erfyl a Megan yn gefnogol iawn i'r diwylliant lleol dros y blynyddoedd a buont yn gweithio'n ddiwyd ar lawer pwyllgor lleol. Mae Erfyl yn flaenol yng Nghapel Penllys, roedd yn un o hoelion wyth Sioe Gŵn Llanfihangel a bu'n aelod gwerthfawr o gymdeithas rheoli pla (llwynogod) Dolanog a'r cylch yn casglu arian yn ei ardal am gyfnod maith.

Ymddeolodd yn ddiweddar ar ôl bod yn Gadeirydd Cofeb y Rhyfel yn Llanfihangel am chwarter canrif. Mae'n amlwg fod Robin Hughes, Llanfyllin yn adnabod Erfyl yn dda oherwydd lluniodd englyn haeddiannol iawn iddo pan ymddeolodd o'r swydd yn ddiweddar.

Heno mae'n ddiwedd pennod, a'r gofal
o' gofeb dros gyfnod;
un llawen clên haedda'n clod
yn rhinwedd y gŵr hynod.

Yn anffodus mae parau priod fel Erfyl a Megan yn prinhaus erbyn heddiw. Fe welsant newid arthurol mewn trigain mlynedd – diolch iddynt am rannu eu profiadau gyda mi a dymunwn flynyddoedd o iechyd a hapusrwydd iddynt eto yn y dyfodol.

Gwilym Jones, Llwyn y Rhedyn, Llanfyllin

Bu farw Mr Gwilym Jones, Llwyn y Rhedyn, Llanfyllin yn ddiweddar, ychydig ddyddiau cyn dathlu ei benblwydd yn 91 oed. Serch hynny, ni chlywais neb yn defnyddio ei gyfenw erioed, Gwilym ydoedd i bawb.

Cafodd ei eni ar fferm Pantglas, Llanwddyn a phriododd ei daid a'i nain yn Eglwys Llanwddyn, sydd bellach o dan y dŵr. Mynychodd Ysgol Llanfihangel yng Ngwynfa, gan gerdded yno neu drwy deithio ar ei ferlen. Bu farw ei rieni'n ifanc a chafodd ei fagu gan ei Ewythr a'i Fodryb ar fferm Pentre Ucha, Llangynyw, a bu yno am tua pymtheg mlynedd ar hugain. Nid oedd yn ffermwr wrth reddf – "Hanes a miwsig oedd fy myd ond dywedodd fy ewythr mai yn y caeau oedd y lle gorau imi", meddai Gwilym wrthyf yn ystod ein sgwrs olaf.

Dychwelodd yn ôl i'w fro enedigol tua 1961, ac aeth i fyw i Fronlas, Llanwddyn, y fferm agosaf i'w gartref sef Pantglas. Cofiaf sgwrsio gydag ef ar y buarth pan oeddwn arfer mynd yno i saethu yn fy arddegau, ond collais gysylltiad ag ef am flynyddoedd wedyn. Symudodd i Llwyn y Rhedyn, Llanfyllin dros bymtheg mlynedd yn ôl. Cefais lawer i sgwrs ddiddorol gydag ef, ac nid gwaith hawdd oedd dod â'r sgwrs i ben weithiau! Roedd y dyrfa luosog a fynychodd ei angladd yn dyst o'i boblogrwydd dros ardal eang. Talodd y Parch Gwyndaf Richards deyrnged effeithiol a diffuant iddo gan 'daro'r hoelen ar ei phen' fel y dywedir.

Bûm yn ymweld â Gwilym ychydig dros wythnos cyn iddo gael ei daro'n wael ac fe hoffwn rannu ychydig o'i atgofion a'i hanesion gyda chwi.

Roedd yn credu'n gryf mewn defnyddio planhigion i wella anhwylderau'r corff. Tua deng mlynedd yn ôl cafodd rwmatism a bu'n rhaid iddo ddefnyddio dwy ffon i gerdded. Awgrymodd rhywun wrtho y dylai gymryd saets coch yn rheolaidd, a chafodd wellhad llwyr.

Credai fod te wermod lwyd yn gwella'r stumog, a bod ffa'r corsydd yn effeithiol i glirio'r perfedd (bowels). Casglai blanhigion arbennig a dyfai gerllaw'r 'Lonely Tree' uwchben Llanfyllin a chymysgid hwnnw gyda dail 'laurels' a menyn heb halen ynddo i wella yr eryr (shingles). Cymysgai ddail blodau'r gog neu suran y coed (wood sorrel) gyda lard heb halen i wella dafad wyllt.

Nid oedd yn gyrru cerbyd ond roedd yn gerddwr o fri. Roedd yn gyfarwydd iawn gyda llwybrau troed yr ardal, ac arweiniodd nifer o bererindodau i leoedd fel Bala a Phennant

Melangell. Cerddai'n rheolaidd o Bentre Ucha, Llangynyw i ymweld â'i chwaer a'i theulu ym Mhant Glas, Llanwddyn.

Diddorol oedd ei atgofion am hen fwydydd a gawsai pan yn ifanc. Roedd potes cig moch yn gyffredin i frecwast a lobsnows i ginio, wedi'i baratoi mewn crochan mawr uwchben tân agored. Arferai ei fodryb wneud bara ceirch ar radell gron uwchben tân agored gan losgi eithin (poethfel) i greu tân poeth iawn. Gwnaent dorth gri, ponca (crempog) a leicêcs ar y radell yn ogystal.

Os oedd angen pwddin heb lawer o drafferth, gwnaent 'bwdin hast'. Defnyddid llond dwrn o flawd plaen a thywallt dŵr oer trosto a'i ferwi nes y twchai. Yna ychwanegid clap o fenyn, ychydig o siwgr a llaeth newydd ato, cyn ei fwyta.

Arferent yfed 'siot' ar ddiwrnod cneifio, cymysgid ychydig o flawd ceirch ffein gyda llaeth a llaeth enwyn mewn jwg mawr, ac yfid ef yn ôl y galw – roedd yn dda iawn ar gyfer torri syched. Roedd bwyta llymru yn gyffredin hefyd, pan ychwanegid blawd ceirch at ddŵr oer a llaeth enwyn a'i adael i suro am rai dyddiau. Ar ôl hidlo'r gymysgedd, cawsai ei ferwi nes oedd wedi tewhau. Câi ei fwyta'n oer mewn llaeth neu ddŵr a thriog.

Soniodd am ffeiriau yn Llanfihangel a Llanfyllin pan werthid yr anifeiliaid ar y stryd wrth ddelio a tharo dwylo i selio'r fargen.

Roedd ein nain, Margaret Williams yn byw yn Tŷ Newydd, Llanwddyn, cyn priodi Ifan Williams. Roedd yn arferiad ganddi hi i odro dwsin o wartheg cyn cerdded i Ffair y Bala ac yn ôl, cyn godro'r gwartheg drachefn cyn mynd i'w gwely!

Roedd angladdau yn hollol wahanol pan oedd Gwilym yn ddyn ifanc. Cludid eirch i'r fynwent ar hers y plwy, a dynnid gan geffyl. Cedwid hers plwyf Llanfihangel mewn cut ar ochr y ffordd ger Tanllan. Cerddodd teulu Pantglas y tu ôl i'r hers hon yr holl ffordd i fynwent Llanfihangel pan fu ei rieni farw.

Roedd yn arferiad i gludo'r corff ar elor bren hefyd, gyda phedair handlen arni a phedair coes. Newidiwyd y sawl a'i cludid yn rheolaidd os oedd y siwrne'n bell.

Y saer lleol a wnai'r arch o'r derw gorau bryd hynny, ac ef a drefnai'r angladd. Cadwyd y corff yn y llofft a'r lleni wedi cau tan ddydd yr angladd. Yn aml roedd gwasanaeth byr yn y cartref y noson gynt, ac yna gwasanaeth yn y tŷ ar ddydd yr angladd. Cofia Gwilym unwaith fod plât ar yr arch yn Eglwys Llanwddyn a cherddai'r bobl heibio iddi gan roddi arian arni cyn i'r arch gael ei chludo i'r fynwent. Roedd gweld y torrwr beddau yn dal rhaw wrth borth y fynwent yn gyffredin hefyd ar un adeg. Roedd yr

'arian rhaw' a gasglwyd yn cael ei roddi i'r teulu neu weithiau defnyddid rhywfaint ohono i dalu'r torrwr beddau.

Roedd rhannu cardiau coffa yn gyffredin ar ddydd yr angladd.

Nid oedd rhoddion ariannol er cof, ac weithiau dynion yn unig a fynychai angladdau. Ni roddid blodau ychwaith, heblaw am 'dorch' o flodau artiffisial o dan wydr hanner cylch gan y teulu agosaf.

Cofiai Gwilym weld tusw bach o friallu ar y bedd gan blant yr ymadawedig rywbyrd, a oedd yn eithriad.

Soniodd am y car cyntaf a ddaeth i'r ardal yn niwedd yr 1920au sef Morris Cowley. Roedd cerbyd a elwid yn Dixie gan Roger Owen, Siop Uchaf, Llanwddyn, ond roedd yn rhaid i'r teithwyr fynd allan i gerdded pan aent i fyny rhiw Tynsietin!

Un o'r pethau olaf a ddywedodd wrthyf oedd "Dw i'n mwynhau bywyd, a dw i'n edrych ymlaen i fod yn gant". Ni chafodd ei ddymuniad yn anffodus ond gellid dweud ei fod wedi mwynhau ei fywyd ym mryniau Maldwyn.

Tom Tudor, Llysun

Roedd y Sioe Frenhinol yn Llanellwedd yn un na wnaiff Tom Tudor, Llysun, Llanerfyl ei anghofio am gyfnod maith mae'n siŵr. Derbyniodd wobr goffa Syr Bryner Jones, sef prif anrhydedd y sioe. Cynigir y wobr yn flynyddol am wahanol agweddau o fyd amaeth, ac eleni ffermio tir glas oedd dan sylw. Dewisiwyd Tom i gynrychioli Sir Drefaldwyn – roedd hon yn gryn orchest i ddechrau gan fod cymaint o ffermwyr tir glas ardderchog o fewn y sir. Yna ar Ddydd Llun y sioe cyhoeddwyd enw'r enillydd o restr fer o dri, a Tom ddaeth i'r brig gyda chanmoliaeth mawr. Bum draw yn Llysun yn sgwrsio gyda Tom ac Ann ar y nos Sul yn dilyn y sioe a chael croeso arbennig – sgwrsio tan un o'r gloch y bore a Tom eisiau codi'n gynnar drannoeth i fynd ag ŵyn i Trallwm!

Magwyd Tom gyda'i dair chwaer yng nghannon, Cwm Nant yr Eira ac roedd yn fab i Huw Tudor, ffermwr a phorthmon anifeiliaid adnabyddus. Roedd y fferm yn rhan o stâd Syr Watkin, a chofia Tom fod mab y tîrfeidiannwr wedi treulio cyfnod yng Nghannon yn ceisio dysgu Cymraeg! Roedd y mynydd yn agored bryd hynny ac roedd saethu grugieir yn bwysig – hyn yn aflonyddu ar weithgareddau'r fferm ym mis Awst a Medi. Bu ei dad farw yn sydyn pan oedd Tom yn 17 oed, a gadawyd ef i redeg y fferm. Roedd 1968 yn flwyddyn bwysig i Tom ac Ann, oherwydd fe brynwyd Llysun gan berthynas (Gwynfor Jones) ar ddydd Mercher a fe briododd y ddau ar y dydd Sadwrn

canlynol! Unig ferch Neuadd Lwyd, Llanfair yw Ann, ac mae'r ddau yn gwneud partneriaeth hapus ac effeithiol.

Bu Tom yn awyddus iawn i wella ei fferm ers pan ddaeth yn berchennog arni a gweithiodd yn galed i drin y tir ac i wella ansawdd y tir glas. Bu'n aelod gweithgar o lu o gymdeithasau – roedd yn Gadeirydd Cenedlaethol yr NFU pan ddaeth clwy'r traed a'r genu yn 2001 – “amser ofnadwy”, meddai Tom. Roedd yn un o sylfaenwyr Antur Wŷn Cymru ddechrau'r 1970au a theithiodd yn eang drwy Ewrop yn cenhadu dros werthiant wŷn Cymreig.

Ef oedd un o sylfaenwyr Cymdeithas Tir Glas Cymru a bu'n hynod weithgar gyda changen Bro Ddyfi ers y dechrau. Bu'n brysur ar bwyllgorau eraill megis y Bwrdd Marchnata Gwlân, a bu'n mynychu cyfarfodydd yn Nhrawscoed ger Aberystwyth a chanolfannau eraill ar hyd a lled Prydain am flynyddoedd. Derbyniodd anrhydedd y MBE am ei wasanaeth i fyd amaeth yn ogystal.

Gwelir felly pam ei fod mor deilwng o dderbyn gwobr goffa Syr Bryner Jones yn y Sioe Eleni. Bu'n gweithio'n ddiflino i gymaint o fudiadau am gyfnod maith – a rhan helaeth o'r gwaith yn wirfoddol a'r anrhydedd a gafodd yn 'eisin ar y gacen'.

Dyn hynaws, diymhongar yw Tom ac nid yw'n hoffi ffws, ond ymhyfrydwn yn ei lwyddiant a llongyfarchwn ef yn gynnes iawn am ennill gwobr mor bwysig.

Mae'n Gymro i'r carn a bu'n ffyddlon i'w gymdeithas ac i'w grefydd ar hyd ei oes.

Sonnir yn aml am Fwynder Maldwyn – mae Tom a'i dir yn uniad perffaith o hyn.

Miss Jessie Rogers, Glaslyn

Bûm yn ymweld ag un o drigolion hynaf yr ardal yn ddiweddar, sef Miss Jessie Rogers, Glaslyn gynt sydd bellach yn byw yn Llanfair yn dilyn tân yn eich chartreff pan gollwyd ei holl eiddo.

Cefais fy synnu gystal cof oedd ganddi a rhannodd ei hatgofion gyda mi ac fe geisiaf gofnodi rai ohonynt yn yr erthygl hon.

Cafodd ei geni ar fferm Glaslyn ar Ionawr 31, 1912, fel nifer o genedlaethau eraill o'i blaen. Aeth i Ysgol Rhiwhiriaeth pan oedd yn wyth oed gan gerdded tair milltir bob ffordd ar ei phen ei hun, ym mhob tywydd. Gadawodd yr ysgol yn 14 oed.

Cofiai'r prifathro yno sef Mr Hamer a'i wraig a ddefnyddiai'r gansen yn aml. Ysgrifennai'r plant ar slatsen ac aent â'u cinio gyda nhw. Ganwyd ei brawd Meic wyth mlynedd yn ddiweddarach ar Fawrth 31, 1920, a bu'n rhaid iddi ei ddanfon i'r ysgol yr

holl amser y bu yno! Cofiw'n am Meic fel cymeriad unigryw a phoblogaidd yn teithio i lawr i Lanfair ar ei dractor o Glaslyn.

Bu Miss Rogers â diddordeb mawr yng ngwaith y ffarm a'r tŷ ar hyd ei bywyd a gweithiodd yn galed ar y tir. Tyfent haidd, gwenith a cheirch ac fe gofia ei dau ewythr yn dyrnu gyda ffyst cyn ei roddi drwy'r peiriant nithio i'w lanhau. Eid â'r gwair i wneud teisi a doid gyda brwyn wedi ei ddal yn ei le gan gortyn toi a phegiau. Roedd diwrnod cneifio yn achlysur pwysig gyda'r cymdogion yn helpu gyda gwelleifiau. Arferent olchi'r defaid mewn pwll ger Abergastell bythefnos ynghynt fel bo'r cnu yn lân ac wedi cael cyfle i gael ychydig o saim yn ôl ynddo. Digwyddai hyn ar y diwrnod hiraf bob blwyddyn sef Mehefin 21 a deuai holl ffermwyr yr ardal yno yn eu tro i olchi defaid.

Roedd ceffylau gwedd yn bwysig iawn wrth gwrs a'r adeg honno roedd nifer o ferlod mynydd gwyllt ar y topiau a thorrid rhai ohonynt i fewn ar gyfer eu marchogaeth. Deuai rhywun o gwmpas weithiau i brynu'r merlod a ddefnyddid wedyn yn y pyllau glo.

Roedd Glaslyn yn rhan o stad Hirros Hall a oedd yn berchen i Lady Brocklehurst o Macclesfield ynghyd â stadau Glyndwr a Threfedrid. Roedd Stad Hirros Hall, Hirros Uchaf, Felingrug, Gelli Gason, Tynbryn, Caerbachau, Ceunant, Cefngolau, Pentyrch, Caeberllan ac yn y blaen. Gwerthwyd y stad yn 1920 a phrynwyd y ffermydd gan y tenantiaid. Roedd cipar ar y stad yn byw yn Four Crosses (Keeper's Cottage ar y pryd) a magai ffesantod yng nghoed Glaslyn a choed Mitchin. Deuai'r bobl fawr yno i saethu yn y gaeaf. Dywedodd Miss Rogers fod llwynogod yn brin iawn yr adeg honno a chlywodd sôn fod David Davies, Llandinam yn gollwng llwynog cyn yr helfa. Mae Miss Rogers yn cofio cŵn hela Llandinam yn croesi tir Glaslyn gyda dau ddyn ar gefn ceffyl yn eu dilyn mewn cotiau cochion.

Glaslyn oedd y lle olaf yn yr ardal i fod heb drydan na dŵr yn y ty. Cariwyd y dŵr o ffynnon am flynyddoedd cyn cael tap dŵr oer ger y tŷ. Lamp oel oedd yn goleuo'r tŷ er bod Miss Rogers yn cofio mynd i hel brwyn gyda modryb iddi er mwyn eu defnyddio fel canhwyllau brwyn.

Lladdent ddau fochyn yn ystod y gaeaf cyn gwneud faggots a halltu'r cig. Defnyddid y tân agored i wneud y coginio gda chadwyn yn crogi o'r simnai. Ni losgid mawn yn Glaslyn dim ond coed a glo. Roeddent yn gwneud eu bara eu hunain yn y ffwrn fawr – torthau mawr wedi'u gosod ar waelod y ffwrn heb fod mewn tun. Ysgubid y lludw allan o'r ffwrn gydag ysgubell eithin a choes hir arni cyn rhoi'r bara i mewn..

Cofia Miss Rogers ei modryb yn gwneud pwysi o fenyn crwn gyda stamp pren a dwy wenithen arno. Roedd ei mam yn gwneud menyn yn ogystal ond pwysi hirsgwâr

oeddynt a wneid gyda dwylo menyyn neu Scotch Hands. Roeddent yn mynd â'r menyyn sbâr i lawr at Four Crosses ar fore dydd Mawrth a'i werthu i William Davies a oedd yn berchen wagen gyda deuben o geffylau yn ei thynnu. Telid tua 10 ceiniog y pwys am y menyyn. Roedd William Davies yn gwerthu'r menyyn yn Wrecsam yn ôl y sôn. Roedd y teulu bron yn hunan-gynhaliol a'r unig beth a brynent oedd siwgr, te a halen.

Roedd ffeiriau yn bwysig iawn pan oedd Miss Rogers yn ifanc ac roedd ganddi atgofion lu am Ffair Llanerfyl a gynhaliwyd ar y 7fed o Fai bob blwyddyn. Roedd y stryd yn llawn o bobl a stondinau. Roedd llawer o weiddi gan Vaughan o Fachynlleth a werthai lestri ar stondin fawr o flaen Caerffynnon, ond nid oedd yn dafarn y bryd hynny. Gwerthid llawer o'r anifeiliaid ar y ffordd yn y bore ond nid oedd ocsiwn a tharai pawb fargen â'i gilydd gan daro dwylo.

Roedd llawer o rialtwch ar ôl naw o'r gloch y nos pan ddeuai'r dynion o Cann Office (dim merched) a chofia Miss Rogers lond ffordd o gyfeillion yn troi am adre gyda'r wawr ar dorri. Prynai ei dau ewythr fochyn ifanc yr un a'u cario adre ar eu cefnau mewn sachau i'w pesgi. Roedd Miss Rogers arfer cario iâr twrci mewn basged i'r Drum at y ceiliog twrci er mwyn cael tua pymtheg o dyrcwn i'w lladd Nadolig.

Arferai fynd i ffeiriau yn Llanfair ar y dydd Gwener cyntaf ym mhob mis ble gwerthid gwartheg ar y stryd. Roedd llawer o siopau gwahanol yn Llanfair ar y pryd er enghraifft Rowlands y Cowper a wnâi lestri menyyn o bren ac Idwal Evans y Tinsmith a wnâi bob math o bethau allan o dun. Roedd Frank Twist y Saddler ar gornel y stryd gyferbyn â'r Wynnstey ac mae Miss Rogers yn cofio Edwards y Saddler yno o'i flaen. Cedwid hers a dau geffyl du yn y Wynnstey gan y perchennog Hughes. Roedd Miss Rogers yn cofio gweld y ceffylau duon yn tynnu hers yng ngofal rhywun o'r enw Battersby. Gyferbyn â'r Wynnstey roedd adeilad i gadw gwlân ar ôi ffermwyr yr ardal ei gludo yno.

Roedd popty mawr i drigolion y dref i lawr Stryd y Bont a deuai'r bobl â'u toes mewn tuniau er mwyn i Miss Jones eu crasu. Cadwai'r wraig honno siop gyda'i mab Fred Jones ac roedd yn agored tan 11 o'r gloch y nos. Gweithiai'r fam a'i mab shifftiau bob yn ail.

Roedd y teulu Jehu yn rhedeg Melin Dolgoch a'r garej ac yn byw ym Mronafon. Bu'n mynd i siop Roberts cyn i deulu'r Morgans gymryd drosodd ganddynt.

Deuai Dr Thomas o amgylch yr ardal ar ei ferlen ond bu farw ar ôl cael ei ddal yn yr eira wrth ymweld â chlaf yn Lluast Matthew. Roedd yn rhaid i rywun fynd i Lanfair i moen y doctoriaid a fu mor ffyddlon i'r ardal.

Soniodd Miss Rogers hefyd am y golled a fu ar ôl colli gymaint o fechgyn ifanc yr ardal yn y Rhyfel Mawr.

Bellach bu Miss Rogers yn byw yn Llanfair ers bron i dair blynedd ar ôl bod yn byw mor hapus yng Nglaslyn am dros nawdeg o flynyddoedd. Synhwyras fod ei chalon yn dal i fod yn ei hen gartref.

Diolch o galon iddi am rannu ei hatgofion lu gyda mi a hynny mewn Cymraeg graenus a godai gywilydd ar lawer ohonom heddiw. Cawsom gipolwg ganddi ar ffordd o fyw a ddiflannodd am byth.

Elfet Lewis, Brynhyfryd, Dolanog

Roedd Ionawr 17 eleni (1919) yn ddiwrnod arbennig i un gŵr o ardal Dolanog, oherwydd dyma pryd y dathlodd Mr Elfet Lewis, Brynhyfryd ei benblwydd yn 95 oed. Cymro Cymraeg glân yw Elfed, ond mae ganddo gefndir hynod ddiddorol. Fe'i magwyd yn y Wladfa, Patagonia a ymfudodd gyda'i deulu drosodd i Gymru pa oedd yn wyth mlwydd oed.

Treuliais brynhawn hyfryd yn ei gwmni ym Mryn Hyfryd, Dolanog lle cefais ychydig o hanes ei fywyd. Roedd ganddo lawer o atgofion am ei fagwraeth yn y Wladfa, er fod 88 o flynyddoedd ers pan adawodd y wlad, ac mae nifer o'i deulu'n parhau i fyw yno. Ganwyd ef ar fferm o'r enw Cae Melwr yn Nyffryn Camwy ger y Gaimon yn nhalaith Chubut. Roedd teulu ei fam wedi bod yn y Wladfa ers tipyn o amser, a magwyd hi'n Tir Halen. Yn ddiddorol iawn roedd ei gwreiddiau hi'n deillio o'r Alban. Fe aeth tad Elfet drosodd i Batagonia o ardal Llanrwst ar ei ben ei hun pan oedd o'n 16 oed, gan weithio ar y llong a chynorthwyo'r Capten yn ôl y sôn. Yn dilyn y briodas ganwyd pump o blant i'r pâr priod, gyda Elfet yn un ohonynt ac roedd ganddo dair chwaer a brawd. Fe'i ganwyd yn y cartref ar y paith a oedd braidd yn anghysbell. Roedd yr ysbyty agosaf yn Buenos Aires, gryn bellter i ffwrdd. Cymraeg oedd iaith y cartref wrth gwrs, ond Sbaeneg oedd y brif iaith o gwmpas. Cofia Elfet yn dda am ei ddyddiau ysgol ac fe'u haddysgwyd yn Sbaeneg. Mae'n cofio'r rhifau yn Sbaeneg hyd heddiw! Bob bore cyn i'r ysgol ddechrau safai'r plant y tu allan i'r ysgol yn canu anthem genedlaethol yr Ariannin ac yna byddai baner yn cael ei chodi ar bolyn gerllaw. Gwisgent fath o ddillad oedd yn debyg i smociau gwynion i fynychu'r ysgol.

Roedd y capel yn bwysig ac yn fan cyfarfod i deuluoedd Cymreig. Capel Salem oedd Elfet a'r teulu'n ei fynychu ran amlaf – adeilad wedi'i orchuddio â sinc, ond mynychent

gapel arall o'r enw Bethel (a welir yn y llun). Cofia Elfet fynd i gyfarfodydd pregethu a chymanfaoedd canu ym Methel.

Dibynai'r teulu ar y fferm am eu bywoliaeth ac roedd Afon Gamwy yn bwysig i gynhyrchu'r cnydau. Roeddent yn dyfrio'r tir gyda system o ffosydd gan droi dŵr o Afon Gamwy i nifer o ffosydd yn ôl y galw. Tyfent fath o wair a elwid yn 'alffalffa' a dibynent ar geffylau gwedd i wneud y gwaith. Tyfid gwenith yn ogystal a chofia Elfet fod digon o ffrwythau ar gael. Cadwent wartheg yn ogystal â defaid merino ac roedd llawer o diroedd anial o gwmpas.

Roedd ei fam yn gwneud menyn ac roedd ffwrn fawr wedi ei chodi ar fuarth y fferm i bobl bobi bara. Carient ddŵr o'r ffynnon gerllaw. Coed tân oedd yn cynhesu'r cartref ac roedd yn arferiad i godi gwreiddiau coed ar y paith cyn eu lliffo. Ni welodd Elfet eira yn ei gartref, ond roedd copa'r Andes yn wyn y rhan helaethaf o'r flwyddyn. Roeddent yn mynd drwy ddrws gyda 'netin' mân arno i mewn i'r tŷ a rwystrai bryfed fel moscitôs. Yfent fath o de a elwid yn matê a phan oedd digwyddiad arbennig megis y Nadolig, lleddid oen, a'i osod ar ffrâm bren i rostio'n gyfan uwchben tân a wnaed yn y ddaear. 'Asado' oedd yr enw ar y dull yma o goginio. Roedd Elfet yn cofio gweld adar a ddisgrifiodd fel math o ffesantod bach a byddent yn torri llwybrau drwy'r drysni a bwydo'r rhain er mwyn eu denu i drapiau er mwyn eu bwyta. Cofiai wedi creaduriaid a elwid yn 'armadillo' a chlywodd sôn fod 'piwmas' yn yr ardal hefyd.

Roedd yn ymwybodol o fodolaeth yr Indiaid ond ni chofiai lawer amdanynt, er iddo eu gweld yn croesi'r paith. Credai fod perthynas eithaf iach rhwng y Cymry a'r Indiaid ond cofiodd glywed hanes am yr Indiaid yn lladd dau Gymro ac fe ddihangodd un arall pan neidiodd ei geffyl dros geunant llydan i ddiogelwch.

Teithiai'r bobl lawer ar ferlod ac roedd poni a thrap yn olygfa gyffredin iawn. Roedd gan ei dad gar Ford cyn iddynt adael y Wladfa.

Gadawodd Elfet a'i deulu y Wladfa pan oedd yn wyth oed. Cofiai fynd i ymweld â theulu yn yr Andes cyn hwylio o Buenos Aires ar long a arhosodd ym Mrasil am gyfnod. Cymerodd y fordaith tua pythefnos ac roedd Elfet wrth ei fodd yn chwarae ar ddeciau'r llong. O'r diwedd dyma gyrraedd porthladd Lerpwl a symudodd y teulu i ardal Felin y Coed (ger Llanrwst) i ffermio lle o'r enw Pennant. Cofiodd Elfet deimlo'n rhyfedd i ddechrau a chredai fod ei fam yn hiraethu am y Wladfa. Cyrhaeddodd y teulu Lerpwl ar long y Demerara ar Fai 9fed 1931. Roedd wedi dechrau o Buenos Aires cyn glanio ym mhorthladd La Plata ym Mrasil. Ar ôl i'r teithwyr ymadael â'r llong yn Lerpwl, roedd yn parhau gyda'r fordaith hir i Awstralia.

Yn dilyn cyfnod yn Ysgol Llanrwst aeth Elfet i weithio fel coedwigwr yn cwmpo coed, a bu'n helpu adeiladau tai cyn cyfarfod a'i ddiweddar wraig May pan oedd hithau'n gweithio yn Swyddfa'r Post ym Mhontllogel. Aethant i fyw i Fryn Hyfryd, Dolanog ar ôl priodi ble magwyd y plant Gareth, Ann a'r diweddar Geraint, ac Alwena. Bu Elfet yn gweithio ar y 'council' am 35 mlynedd gan yrru lori cyn iddo ymddeol ddeng mlynedd ar hugain yn ôl.

Pan oedd yn 70 oed, bu'n rhaid iddo fynd i Lysgenhadaeth yr Ariannin yn Llundain er mwyn adnewyddu ei drwydded yrru, oherwydd ystyrid ef yn Archentwr yn swyddogol! Hoffwn ddiolch i Elfet a Gareth am y croeso a gefais ym Mryn Hyfryd ac am rannu ei atgofion difyr am ei blentyndod yn y Wladfa. Anfonwn ein cyfarchion am benblwydd hapus hwyr iddo a dymunwn y gorau iddo yn y dyfodol.

'Wddyn'